Llywodraeth Cymru, trwy: EthicsandRegulation@wales.gsi.gov.uk

11 Mai 2014

Annwyl Syr/Madam,

**Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 – Gweithredu**
**Ymgynghoriad ar ganllawiau newydd ac is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.**

**Ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales**

Diolch am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar y mater uchod.

Rydym yn gweithio fel rheoleiddiwr, partner a chynghorydd i fusnesau, cyrff anllywodraethol, Awdurdodau Lleol a chymunedau i helpu i roi polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ar waith. Rydym yn arddel dull rheoli ar lefel yr ecosystem i hyrwyddo datblygu cynaliadwy sy'n dod â manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru.

Yn berthnasol i'r ymgynghoriad hwn, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau i wneud is-ddeddfau, a drosglwyddwyd o'i gorff etifeddol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae gennym nifer gyfyngedig o achosion lle defnyddir pwerau is-ddeddfau sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn. Rydym yn dal i werthfawrogi'r ffaith bod y fath bwerau ar gael fel rhan o'r offer sydd gennym i gynorthwyo â'n gwaith e.e. mewn perthynas â Gwarchodfa Natur Forol Sgomer teimlwn eu bod yn darparu ataliad effeithiol. Fodd bynnag, yn aml rydym yn defnyddio pwerau eraill cryfach mewn deddfwriaeth i anelu at ddibenion tebyg.

At ei gilydd mae'r canllawiau a ddarperir yn glir ac yn ddefnyddiol mewn perthynas â'r prosesau a'r arferion sy'n ofynnol i ddefnyddio'r pwerau perthnasol i wneud is-ddeddfau. Mewn perthynas â'r Gorchymyn ac is-ddeddfau arfaethedig nad oes angen i'r Gweinidog eu cadarnhau, nid ydym eisiau ychwanegu unrhyw beth at y rhestr a geir yn Atodlen 1 ar hyn o bryd.

Mae ein sylwadau ar gwestiynau penodol yr ymgynghoriad wedi'u nodi isod.

Mae croeso i chi gysylltu â'r aelod canlynol o staff Cyfoeth Naturiol Cymru os hoffech drafod ein barn ar y mater hwn yn fanylach: Jont.Bulbeck@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Yn gywir,

Ceri Davies,
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio

Ffôn/Tel Ffôn Symudol / Mobile
E-bost/E-mail - Ceri.Davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Natural Reources Wales, Tŷ Cambria, 29 Newport Road, Cardiff, CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / Correspondence welcomed in Welsh and English

<u>**Sylwadau penodol Cyfoeth Naturiol Cymru**</u>

## Dogfen ganllawiau

**1. A yw'r canllawiau'n glir ac yn ddefnyddiol?**

- (●) Ydyn
- ( ) Nac ydyn
- ( ) Ddim yn siŵr

*Sylwadau:*
Er eu bod yn glir ac yn ddefnyddiol at ei gilydd, gellid gwneud rhai gwelliannau e.e. dweud yn fwy eglur pa awdurdodau mae'r pwerau'n berthnasol iddynt. Mewn mannau dim ond i gynghorau sirol neu fwrdeistref sirol mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol, ond nid yw'r canllawiau'n glir ynghylch hyn bob amser. Byddai'n gliriach pe bai pob adran yn y canllawiau'n enwi'r awdurdodau perthnasol y mae adran o'r ddeddfwriaeth yn berthnasol iddynt.

Hefyd mewn perthynas â phwerau CNC byddai'n ddefnyddiol pe bai'r geiriad a ddefnyddir yn y canllawiau'n gliriach ynghylch a yw'r ddeddfwriaeth yn berthnasol i bwerau CNC o ran is-ddeddfau a drosglwyddwyd oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru'n unig [ar hyn o bryd nid yw'n glir a yw'r ddeddfwriaeth hefyd yn cynnwys pwerau CNC o ran is-ddeddfau a drosglwyddwyd oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru neu Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ai peidio].

**2. A oes unrhyw agweddau ar y broses is-ddeddfau y byddai'n fuddiol i chi gael canllawiau arnynt ond sydd heb eu cynnwys yn y ddogfen ganllawiau?**

- ( ) Oes
- (●) Nac oes
- ( ) Ddim yn siŵr

*Sylwadau:*
Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol cynnwys diagramau proses yn y canllawiau.

## Rheoliadau

**3. Beth yw eich barn am yr ystod y caniateir pennu cosbau penodedig oddi mewn iddi?**
Ymddengys fod yr ystod cosbau penodedig yn rhesymol.

## Y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau (MEAERh)

**4. . Beth yw'ch sylwadau chi am ddogfen y MEAERh? :**
Dim sylwadau.

**5. Ydych chi'n cytuno â'r manteision a amlinellir ar gyfer opsiwn 3 yn nogfen y MEAERh?**

- (●) Ydw
- ( ) Nac ydw
- ( ) Ddim yn siŵr

*Sylwadau:*
Dim sylwadau

## Y Gorchymyn

**6. A oes gennych sylwadau neu farn am y pwerau i wneud is-ddeddfau sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn?**

- ○ Oes
- ● Nac oes
- ○ Ddim yn siŵr

*Sylwadau:*
Dim sylwadau

**7. A oes gennych awgrymiadau am bwerau eraill i wneud is-ddeddfau y credwch y dylid eu hychwanegu at Atodlen 1? Os felly, nodwch, ar gyfer pob achos yn unigol, pam yr ydych o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny?**

- ○ Oes
- ● Nac oes
- ○ Ddim yn siŵr

*Sylwadau:*
Nid ydym yn gofyn am ychwanegiadau ar hyn o bryd, ond rydym wedi nodi'r cyfle i wneud hynny yn y dyfodol.

## Y Memorandwm Esboniadol i'r Gorchymyn (MEAERh)

**8. Beth yw'ch sylwadau chi am ddogfen y MEAERh?**
Dim sylwadau

**9. Ydych chi'n cytuno â'r manteision a amlinellir ar gyfer Opsiwn 3 yn y ddogfen?**

- ○ Ydw
- ○ Nac ydw
- ○ Ddim yn siŵr

*Sylwadau:*
Dim sylwadau

Rydym yn deall y bydd yr ymateb hwn yn cael ei gyhoeddi.

***Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales***

***Mai 2014***